


Er mwyn ymateb i bryderon am argaeledd gweithwyr o ganlyniad i Covid-19 rydym yn peilota rhaglen recriwtio sydyn sy'n creu llwybr carlam i gael pobl i mewn i swyddi'n gyflym.

Rydym yn cynnal cwrs hyfforddiant, am ddim, i bobl sydd â diddordeb mewn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn ardal Nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

## Y cwrs hyfforddi

Bydd y cwrs hyfforddi pedwar diwrnod yn digwydd ar-lein gyda thiwtor sydd â phrofiad mewn darparu hyfforddiant gofal cymdeithasol.

Bydd y cwrs cyntaf yn digwydd ar 28 a 29 Ionawr, a 3 a 4 Chwefror – rhaid bod y recriwtiaid newydd yn gallu mynychu'r pedwar diwrnod llawn.

Bydd yr hyfforddiant yn trafod y pethau hanfodol sydd angen eu gwybod er mwyn dechrau gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Diogelu
- Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr gofal cymdeithasol
- Ymarfer diogel / ymwybyddiaeth Covid-19
- Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Asesiadau risg
- Cynllunio Gofal a Chefnogaeth
- Cyfranogiad gweithredol
- Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cyfathrebu
- Deddfwriaeth iechyd a diogelwch (haint, atal a rheoli haint, cymorth cyntaf, diogelwch bwyd, diogelwch tân, symud a thrin)
- Gofal personol
- Maeth, hydradu a helpu pobl i fwyta ac yfed
- Dementia
- Gofal diwedd oes
- Symud a Thrin
- Atal a rheoli haint, a defnyddio offer diogelwch personol (PPE)
- Rhoi meddyginiaethau.

Mae’r cwrs hwn wedi cael ei groesgyfeirio â’r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol felly byddwch yn gwybod un union pa bynciau sydd wedi’u trafod. Bydd gan yr unigolyn hefyd ddogfen sy’n nodi’r rhaglenni maen nhw wedi’u cwblhau. Rhaid i’r hyfforddiant hwn cael ei ddilyn gan gefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol i unrhyw un rydych yn eu cyflogi. Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gallu rhoi rhywfaint o help i chi gyda rhai o’r hyfforddiant, megis symud a thrin.

## Sut i gael mynediad at yr hyfforddiant

Rydym yn gofyn i unrhyw un sydd â diddordeb i gofrestru ar borth swyddi Gofalwn Cymru. Byddwn yn cysylltu â nhw i drefnu cyfweliad anffurfiol dros y ffôn er mwyn penderfynu os ydynt yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Os ydych wedi apwyntio aelodau staff newydd, h.y. o fewn pedair wythnos o’r dyddiadau hyfforddiant, ac yn ei chael hi’n anodd darparu hyfforddiant o ganlyniad i Covid-19, efallai gallwn gynnig lle iddynt ar y cwrs.  Cysylltwch â **cyswllt@gofalwn.cymru** i drafod hwn.

## Datganiad Diogelu a Gwahardd

Rydym yn ystyried sut y gallwn wneud gwiriad cofnodion troseddol gyda’r gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, naill ai cyn neu ar ôl yr hyfforddiant. Efallai ni fyddwn yn gallu cwblhau’r rhain mewn pob sefyllfa; yn y sefyllfa hon mi fydd yn gyfrifoldeb arnoch chi fel y cyflogwr i gwblhau’r gwiriad gyda’r gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Hysbysebu eich swyddi

Rhaid I chi gofrestru unrhyw swyddi gwag sydd gennych ar wefan **Gofalwn Cymru**. Byddwn yn annog pawb sy’n cwblhau’r hyfforddiant i ymweld â’r safle cyn, yn ystod ac ar ôl mynychu’r hyfforddiant.

## Talu am hyfforddiant

Os ydych chi’n recriwtio unrhyw un sydd wedi derbyn yr hyfforddiant efallai bydd angen i chi ystyried sut gallwch eu talu am fynychu’r hyfforddiant, ar ôl iddynt fod yn eich cyflogaeth am gyfnod o amser, gan na fyddant wedi cael eu talu am hyn.

## Casglu adborth

Rydyn ni eisiau gwybod pa mor dda mae’r hyfforddiant yn gweithio. Os ydych yn cyflogi unrhyw un sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant byddwn yn cysylltu â chi mis ar ôl iddynt gychwyn i weld sut roedd yr hyfforddiant wedi’u paratoi ar gyfer y swydd.